# Cod Ymarfer ar Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant

2025/26

**Cod Ymarfer ar Undeb y Myfyrwyr**

**Cyflwyniad**

1. Mae *Deddf Addysg 1994*, Rhan II, paragraff 22 (‘y *Ddeddf*’) yn gosod yr angen i gorff llywodraethol sefydliad gymryd y fath gamau ag sy’n rhesymol ymarferol i sicrhau bod Undeb Myfyrwyr (UM) sy’n gweithredu yn y sefydliad hwnnw yn gwneud hynny mewn ffordd deg a democrataidd a’i fod yn atebol am ei gyllid. Mae gofyn i’r corff llywodraethol baratoi, dosbarthu ac, yn ôl yr angen, adolygu Cod Ymarfer sy’n nodi sut y bydd yn cwrdd â’r angen hwn.

2. Yn unol â’r Ddeddf, mae’r Cod Ymarfer hwn felly yn amlinellu sut y bydd corff llywodraethol Prifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant, sef Cyngor y Brifysgol, yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan y Ddeddf, a sut y bydd Undeb Myfyrwyr Prifysgol Cymru y Drindod Dewi (‘yr UM’) a Chyngor y Brifysgol yn cwrdd â’r gofynion penodol a gynhwysir o fewn paragraff 22.

**Cyfansoddiad**

3. Yn unol â gofynion y Ddeddf, bydd gan Undeb Myfyrwyr y Drindod Dewi Sant gyfansoddiad ysgrifenedig a gymeradwyir gan Gyngor y Brifysgol ac y bydd yn rhaid ei adolygu ar ddiwedd cyfnodau na fyddant yn hwy na phum mlynedd. Trefnir bod y cyfansoddiad ar gael i’w weld ar gais yn swyddfeydd yr UM.

**Aelodaeth**

4. Bydd gan fyfyrwyr yr hawl i (i) beidio â bod yn aelod o’r UM, neu (ii) yn achos corff cynrychiolaidd nad yw’n gymdeithas, nodi nad ydynt yn dymuno cael eu cynrychioli ganddo.

5. Bydd pob myfyriwr sy’n cofrestru’n llawn gyda Phrifysgol Cymru y Drindod Dewi Sant yn dod yn aelod o’r UM yn awtomatig a gall gael mynediad i’w holl wasanaethau. Fodd bynnag, bydd gan fyfyrwyr yr hawl i dynnu’n ôl, a amlinellir yn y Cytundeb Myfyrwyr. Cânt dynnu’n ôl drwy roi rhybudd ysgrifenedig i Brif Weithredwr yr UM yn unol â’i gyfansoddiad a’i is-ddeddfau.

6. Ni roddir unrhyw fyfyrwyr sy’n arfer eu hawl i beidio â bod yn aelodau o’r UM dan anfantais annheg a byddant yn gallu cael mynediad i wasanaethau’r UM yn unol â’i is-ddeddfau. Fodd bynnag, ni fyddant yn gallu cymryd rhan na phleidleisio mewn cyfarfodydd democrataidd na phleidleisio mewn unrhyw etholiadau na phleidleisiau. Ni fyddant yn cael sefyll fel ymgeisydd dros, na dal swydd yn, yr UM nac ychwaith cael cymryd rhan mewn unrhyw benderfyniadau gan Glybiau, Cymdeithasau na Phwyllgorau’r UM.

**Etholiadau**

7. Penodir swyddogion sabothol yr undeb drwy bleidlais gudd mewn etholiad y bydd gan bob aelod o’r UM yr hawl i bleidleisio ynddo, yn ôl gofynion y Ddeddf ac yn unol â Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad ac is-ddeddfau’r UM. Bydd Swyddog Etholiad a’r Dirprwy Is-Ganghellor (neu enwebai) yn goruchwylio’r etholiad. Ymdrinnir ag unrhyw gwynion sy’n codi

o ganlyniad i'r etholiadau yn unol ag is-ddeddfau'r UM. Bydd hyn yn cynnwys cam terfynol a fydd yn gadael i gwynion gael eu cyfeirio at y Dirprwy Is-Ganghellor (neu enwebai) i'w weithredu / benderfynu pan fo angen.

8. Bydd y gweithdrefnau ar gyfer y fath etholiadau, ynghyd â'r canlyniadau, yn cael eu hadrodd i, a'u harchwilio gan Gyngor y Brifysgol, fel arfer drwy ei Bwyllgor Academaidd, er mwyn i'r Cyngor gael ei fodloni bod yr etholiadau wedi eu cynnal yn deg ac yn gywir. Bydd yr UM yn llunio rheolau a chanllawiau ysgrifenedig yr etholiadau ar sail flynyddol ac yn cyhoeddi'r rhain ar ei wefan.

9. Ni fydd unigolyn yn dal swydd sabothol gyda'r undeb, na swydd etholedig a delir gan yn undeb, am fwy na dwy flynedd.

**Cyllid**

10. Cyflwynir cynnig cyllideb Undeb Myfyrwyr i'w ystyried yn gyntaf gan y Tîm Arweinyddiaeth Uwch a'r Senedd. Bydd y gyllideb arfaethedig yn cael ei hystyried gan y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a'i chyflwyno i'w chymeradwyo gan Gyngor y Brifysgol. Bydd monitro gwariant yn cael ei wneud drwy'r Pwyllgor Archwilio a Risg ar ran y Cyngor.

11. Bydd datganiadau ariannol archwiliedig yr UM yn cael eu cyhoeddi drwy wefannau Tŷ'r Cwmnïau a'r Comisiwn Elusennau fel rhan o adrodd statudol yr UM a byddant hefyd yn cael eu cyhoeddi ar wefan yr UM. Cyflwynir y datganiadau ariannol archwiliedig i'w harchwilio gan Bwyllgor Archwilio a Risg Cyngor y Brifysgol.

**Ymlyniadau**

12. Bydd y datganiadau ariannol yn rhestru'r sefydliadau allanol y mae'r UM wedi cyflwyno rhoddion iddynt yn ystod y cyfnod y mae'r adroddiad yn cyfeirio ato, yn ogystal â manylion y rhoddion hynny.

13. Bydd gweithdrefn yr UM ar gyfer dosrannu adnoddau i grwpiau neu glybiau yn un deg, wedi ei gosod yn ysgrifenedig, ac ar gael i fyfyrwyr drwy wefan yr UM. Bydd hyn yn cynnwys gosod proses apeliadau glir.

14. Os bydd yr UM yn penderfynu ymlynu â sefydliad allanol, bydd yn cyhoeddi rhybudd o'i benderfyniad ar ei wefan, gan roi'r manylion ynghylch enw'r sefydliad, unrhyw ffioedd tanysgrifio (neu debyg) sydd wedi eu talu neu y bwriedir eu talu, ac unrhyw roddion a roddwyd neu y bwriedir eu rhoi, i'r sefydliad. Cynhwysir manylion am ymlyniadau newydd a chyfredol â sefydliadau allanol mewn adroddiad blynyddol, gan gynnwys manylion am ffioedd tanysgrifio (neu debyg) sydd wedi eu talu ac unrhyw roddion a roddwyd. Cyhoeddir y wybodaeth hon ar wefan yr UM ac fe'i cyflwynir i Bwyllgor Archwilio a Risg Cyngor y Brifysgol fel rhan o'r datganiadau ariannol.

15. Adolygir yr adolygiad o ymlyniadau â sefydliadau allanol gan yr UM o leiaf unwaith y flwyddyn ac yn unol â Memorandwm ac Erthyglau Cymdeithasiad yr UM.

16. Os bydd Cyngor y Brifysgol yn cwestiynu un o ymlyniadau'r UM, wedyn penderfynir ar barhau gyda'r ymlyniad drwy gynnal pleidlais gudd y bydd gan holl aelodau'r UM yr hawl i bleidleisio ynddi.

**Cwynion**

17. Rhaid i fyfyrwyr sy'n anfodlon ar eu trafodaethau â'r UM, neu sy'n honni eu bod o dan anfantais annheg o ganlyniad i arfer eu hawl i beidio â bod yn aelod o Undeb y Myfyrwyr neu gorff cynrychiolaidd, godi eu pryderon yn y lle cyntaf gyda Phrif Weithredwr yr UM yn unol ag is-ddeddfau'r UM. Mae'r is-ddeddfau yn cynnwys darpariaeth i gwynion gael eu cyfeirio at y Dirprwy Is-Ganghellor (neu enwebai) fel y gellir ymchwilio i, ac adrodd ar, gwynion ar ran Cyngor y Brifysgol.

18. Lle mae'r Dirprwy Is-Ganghellor wedi ymchwilio i gwyn, fe gyflwynir adroddiad i Gyngor y Brifysgol.

19. Ymdrinnir â chwynion yn gyflym ac yn deg. Lle cadarnheir cwyn, cymerir pob cam rhesymol i ddod o hyd i adferiad effeithiol.

**Cyfathrebu**

20. O leiaf unwaith y flwyddyn bydd Cyngor y Brifysgol yn dwyn y Cod Ymarfer hwn at sylw myfyrwyr, fel arfer drwy'r Cytundeb Myfyrwyr. Drwy'r un broses bydd Cyngor y Brifysgol hefyd yn gwneud myfyrwyr yn ymwybodol o Siartr yr UM a'r Cytundeb Perthynas rhwng y Brifysgol a'r UM.

21. Tynnir sylw myfyrwyr o leiaf unwaith y flwyddyn hefyd at unrhyw gyfyngiadau sy wedi eu rhoi ar weithgareddau'r UM o ganlyniad i'r gyfraith mewn perthynas ag elusennau, ac unrhyw weithgareddau neu ymddygiad sy'n berthnasol i ddarparu Cod Ymarfer o unrhyw fath a roddwyd o dan Adran 43 Deddf Addysg (Rhif.2) 1986.

**Adolygu**

22. Ar sail flynyddol adolygir y Cod Ymarfer hwn gan Bwyllgor Academaidd y Brifysgol ac wedi hynny fe'i cyflwynir i Gyngor y Brifysgol i'w gymeradwyo.